17.04.2020

| **CWLWM yn erfyn am ragor o gefnogaeth i'r sector gofal plant** | **CWLWM pleads for more support on behalf of childcare sector** |
|---|---|
| Ym mhedwaredd wythnos y pandemig Coronafirws mae partneriaid CWLWM yn erfyn ar Lywodraeth Cymru i gefnogi'r sector gofal plant, ac i ateb y cwestiynau ynghylch y gefnogaeth sydd ar gael i'r sector. Heb y gefnogaeth hon, ni fydd yn bosib i'r sector gofal plant gynnal ei hun, na pharhau i gynnig y gofal plant fydd yn angenrheidiol i'r economi sylfaenol yn y tymor canolig a'r hirdymor.<br><br>Mae'r sector wedi gweld problemau gydag argaeledd y cynllun saib yn enwedig perthnasedd y cynllun gan wybod na fydd y Cynnig Gofal Plant (heb ffioedd a delir gan rieni) yn ddigon i dalu cyflogau staff.<br><br>Problem arall yw diffyg dealltwriaeth *Busnes Cymru* o'r sector. Mae darparwyr gofal plant yn cael eu heithrio o un grant ar ôl y llall, felly nid oes cefnogaeth ariannol ar gael i'w digolledu yn wyneb diffyg incwm.<br><br>Meddai Jane O'Toole, Prif Swyddog Gweithredol CPCKC (Clybiau Plant Cymru Kids' Club, un o'r partneriaid CWLWM):<br><br>*"Gofynnir i'r Sector Gofal Plant barhau'n agored i gefnogi gweithwyr allweddol. Mae'r rhai sy'n dal i fod ar agor yn gwneud colled ariannol enfawr, ond yn parhau'n agored i wasanaethu eu cymunedau. Rydym yn gofyn am gefnogaeth ddybryd i'r lleoliadau hyn, a'r rhai a gaeodd yn unol â chyngor gwyddonol. Un datrysiad awgrymwn yw adfer y rhyddhad TAW sydd ar hyn o bryd yng nghlwm â'r Gronfa Cadernid Economaidd, fel bod sefydliadau gofal plant yn medru ymgeisio am grant o £10,000. Byddai sicrhau y grant hwn i holl leoliadau, boed ar agor neu beidio, yn darparu'r gefnogaeth y mae'r lleoliadau yn eu haeddu."*<br><br>Mae aelodau CWLWM yn deall bod cefnogaeth yn golygu llawer mwy na thalu cyflogau. Mewn nifer o achosion mae disgwyl i leoliadau parhau i dalu'r rhent yn ddi-dor, felly maent yn ceisio eu gorau i dalu rhent, | Four weeks into the Coronavirus pandemic, CWLWM partners are pleading for support from the Welsh Government as many unanswered questions remain about the measures available to the childcare sector. Without support, the sector cannot sustain itself in order to be here to provide childcare as part of the foundational economy in the mid to longer term.<br><br>The childcare sector has seen issues with the availability of the furlough scheme, and whether the scheme applies knowing that The Childcare Offer grant funding alone will not cover salaries (in the absence of parent fees).<br><br>Another issue faced is the lack of understanding by *Business Wales*. Childcare is exempt from one grant after another which provides no help to make up for lack of income.<br><br>Jane O'Toole, Chief Executive Officer of CPCKC (Clybiau Plant Cymru Kids' Club, one of the CWLWM partners) said:<br><br>*"The Childcare Sector has been asked to remain open, to support critical workers. Those remaining open are running at a severe financial loss, but are open to support their community. We are asking for these settings - and those that have had to close in line with scientific advice - to be supported immediately. One solution we suggest is to reinstate the VAT exemption currently tied to the Economic Resilience Fund (ERF) grant pot so that childcare settings can apply for a one-off grant of £10k. Making this available to all settings, currently open or otherwise, would provide the support these settings deserve"*<br><br>CWLWM members know that in many cases support isn't just about covering wages. Many settings haven't been given rental holidays and are still trying to find funds to cover rent, utilities, insurance. There is no funding to pay for these costs. New childcare providers along with newly |

gwasanaethau ac yswiriant. Nid oes nawdd ar gael i dalu'r costau hyn. Ni fydd cefnogaeth ar gael i ofalwyr plant newydd gofrestredig, nac ychwaith darparwyr gofal plant newydd o dan y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (SEISS). Ni fydd y rhai a chychwynnodd weithio ar ôl 5ed Ebrill 2019 yn gymwys ar gyfer unrhyw gymorth o gwbl.

Gwyddom fod o leiaf hanner lleoliadau gofal plant o dan reolaeth pwyllgor gwirfoddol, ac mewn nifer o achosion maent yn sefydliadau anghorfforedig ac felly bydd aelodau'r pwyllgorau yn atebol am unrhyw golled ariannol. Mae aelodau'r pwyllgor, gan fwyaf, yn rieni sy'n rhoi o'u hamser (tu allan i oriau gwaith arferol) i gefnogi a rheoli eu lleoliad gofal plant cymunedol, sydd yn darparu'r gofal plant sy'n caniatáu iddynt hwy weithio.

Meddai Dr Gwenllian Lansdown Davies, Cadeirydd CWLWM,

*"Teimlwn fod y sector gofal plant yn cael ei anwybyddu, ac ymddengys does neb yn malio. Bydd y sector yn hanfodol os ydym am weld adfywiad economaidd yn y tymhorau byr, canolig a'r hirdymor. Oni chefnogir y lleoliadau nawr, bydd nifer ohonynt yn methu ailagor. Bydd angen cefnogaeth ariannol arnynt i ail-adeiladu. Mae angen sicrwydd arnynt* ***nawr*** *bod y gefnogaeth yna."*

registered childminders will **not** be entitled to assistance under the Self Employment Income Support Scheme (SEISS) announced. Those who started after 5th April 2019 will not get any support.

We know that at least half childcare settings are voluntarily managed. In many instances, these are unincorporated associations, so any liability for loss would have to be borne by the committee members, who are in the main parents volunteering their time (outside their normal working life) to support and manage their local community childcare setting, to provide childcare allowing them to work.

Dr Gwenllian Lansdown Davies, CWLWM Chair said:

*"We feel that the childcare sector is being ignored and that no one seemingly cares. The sector will be essential both in the short, medium and long term for economic regeneration. If the sector is not supported now many settings will struggle to re-open. They are going to need financial support to rebuild. They need assurances* ***now*** *that support is there."*

Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr Mudiad Meithrin
Jane O'Toole, Prif Weithredwr Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
David Goodger, Prif Weithredwr Blynyddoedd Cynnar Cymru/Early Years Wales
Claire Protheroe, Prif Swyddog Pacey Cymru
Sarah Coates, Prif Swyddog NDNA Cymru

Mae **Cwlwm** yn tynnu ynghyd y pum prif sefydliad gofal plant yng Nghymru i ddarparu gwasanaeth dwyieithog integredig sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a theuluoedd ar draws Cymru yn unol â dull 'system-gyfan' Llywodraeth Cymru.

Mae **Cwlwm** - prosiect a arweinir gan Mudiad Meithrin mewn partneriaeth â Clybiau Plant Cymru, NDNA Cymru, PACEY Cymru a Blynyddoedd Cynnar Cymru - yn tynnu ynghyd y gallu, ar sail cyfoeth o brofiad, i fynd i'r afael â materion yn y sector Gofal Plant a Chwarae.

***Cwlwm*** *brings together the five leading childcare organisations in Wales to deliver a bilingual integrated service that ensures the best possible outcomes for children and families across Wales within the Welsh Government's 'whole-system' approach.*

***Cwlwm,*** *led by Mudiad Meithrin in partnership with Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs (CPCKC), National Day Nurseries Association (NDNA Cymru), Professional Association for Childcare and Early Years (PACEY Cymru) and Early Years Wales, brings together the ability, based on a wealth of experience, to tackle issues within the Childcare and Play sector.*

cwlwm

| | | |
|---|---|---|
| Clybiau Plant Cymru KIDS' CLUBS<br>www.clybiauplantcymru.org | mudiad meithrin arbenigwyr y blynyddoedd cynnar Welsh early years specialists<br>https://www.meithrin.cymru/ | NDNA National Day Nurseries Association *Brighter thinking for early years<br>https://www.ndna.org.uk/ |
| pacey CYMRU<br>https://www.pacey.org.uk/ | cwlwm<br>https://www.cwlwm.org.uk/ | Early Years Wales Blynyddoedd Cynnar Cymru<br>https://earlyyears.wales/ |